Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf

Parch / Respect · Tegwch / Fairness · Cydweithio / Co-operation · Cymreictod / Welsh Identity · Hapusrwydd / Happiness

# Cylchlythyr 11/9/26

RIGHTS RESPECTING SCHOOLS
unicef UNITED KINGDOM
GOLD – RIGHTS RESPECTING

**Hawl y Mis-**

**Mae gen i'r hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.** (Erthygl 28)

## Dyddiadau Pwysig i'ch Calendr

| **Dyddiad** | **Beth** | **Pwy** |
|---|---|---|
| **Dydd Mercher 16.9.26** | **Colorfoto**<br>**Lluniau unigol o'ch plentyn** | Ysgol Gyfan |
| **Dydd Mercher 16.9.26** | **Noson Groeso i rieni Derbyn, Bl1 a Bl2.**<br>Mwy o fanylion isod | Derbyn i Bl.2 |
| **Dydd Iau 17.9.26** | **Noson Groeso i rieni Bl3 - Bl6**<br>Mwy o fanylion isod | Bl.3 - Bl.6 |
| **Dydd Iau 24.9.26** | **Bore Coffi Macmillan**<br>Bore Coffi yn y Neuadd i godi arian tuag at elusen Macmillan | Ysgol Gyfan |
| **Dydd Gwener 25.9.26** | **Diwrnod HMS**<br>**Ysgol ar gau i ddisgyblion** | Ysgol Gyfan |
| **Dydd Mawrth 29.9.26** | **Cyfarfod AGM Cymdeithas Rhieni Athrawon -** 7pm<br>Neuadd yr Ysgol | Ysgol Gyfan |
| **Dydd Mercher 30.9.26** | **Gweinyddu Nasal Flu Spray** | Derbyn - Bl6 |

Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf

Parch Tegwch Cydweithio Cymreictod Hapusrwydd
Respect Fairness Co-operation Welsh Identity Happiness

| | | |
|---|---|---|
| **Dydd Mercher 7.10.26** | **Diwrnod HMS Clwstwr**<br>**Ysgol ar gau i ddisgyblion** | Ysgol Gyfan |
| **Dydd Gwener 9.10.26** | **Diwrnod Miri Melyn**<br>Gwisgo Melyn i ddathlu Diwrnod Iechyd Meddwl | Ysgol Gyfan |
| **Dydd Mercher 14.10.26** | **Nosweithiau Rhieni**<br>**Derbyn - Blwyddyn 6**<br>Mwy o fanylion isod | Derbyn - Blwyddyn 6 |
| **Dydd Gwener 16.10.26** | **Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth - Gwisgo Coch i'r Ysgol** | Ysgol Gyfan |
| **Dydd Gwener 16.10.26** | **Disgo Calan Gaeaf**<br>Mwy o fanylion i ddilyn | Ysgol Gyfan |
| **Dydd Llun - Dydd Gwener 19 - 23.10.26** | **Taith preswyl Llangrannog Blwyddyn 6** | Bl6 |
| **Llun i Gwener 26-29.10.26** | **Hanner Tymor** | Ysgol Gyfan |

Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf

Parch – Respect | Tegwch – Fairness | Cydweithio – Co-operation | Cymreictod – Welsh Identity | Hapusrwydd – Happiness

## Nosweithiau Croeso

**Cyflwyniadau Croeso Nôl-** Er mwyn i chi gael blas o gwricwlwm a threfniadau'r flwyddyn fe fydd yr athrawon yn rhannu gwybodaeth gyda chi drwy gynnal cyflwyniadau byr a fydd yn cael eu cynnal yn yr Ysgol.

Ar gyfer y cyfarfodydd dyma'r diwrnodau ac amseroedd. Bydd dau gyflwyniad-un drwy gyfrwng y Gymraeg a'r llall drwy gyfrwng y Saesneg. Gweler yr amserlen isod :

| | | |
|---|---|---|
| **Dydd Mercher**<br>**16.9.26** | **Derbyn**<br>Cyflwyniad Cymraeg<br>5pm<br><br>Cyflwyniad Saesneg<br>6pm | **Blwyddyn 1 a 2**<br>Cyflwyniad Saesneg<br>5pm<br><br>Cyflwyniad Cymraeg<br>6pm |
| **Dydd Iau**<br>**17.9.26** | **Blwyddyn 3 a 4**<br>Cyflwyniad Cymraeg<br>5pm<br><br>Cyflwyniad Saesneg<br>6pm | **Blwyddyn 5 a 6**<br>Cyflwyniad Saesneg<br>5pm<br><br>Cyflwyniad Cymraeg<br>6pm |

Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf

Parch / Respect · Tegwch / Fairness · Cydweithio / Co-operation · Cymreictod / Welsh Identity · Hapusrwydd / Happiness

**<u>Nosweithiau Rhieni - Derbyn i Flwyddyn 6</u>**

**<u>Cyfarfodydd Cynnydd- Nos Fercher  Hydref y 14eg 3.40 p.m</u>**

Byddwn yn cynnal ein cyfarfod cyntaf eleni yn rhithiol drwy ddefnyddio ***Microsoft Teams***. Mi fyddwn yn rhannu linc drwy Eduspot ar **Ddydd Llun 14.9.26** a fydd yn eich galluogi i wneud apwyntiad ar gyfer y noson. Dilynwch y ddolen a fydd yn eich harwain i'r wefan gywir ar gyfer gwneud yr apwyntiad. Gofynnwn i chi wneud yr apwyntiad erbyn **Dydd Mawrth Hydref 13fed ( 3.30 p.m.)** os gwelwch yn dda. Cyn y noson byddwch yn derbyn un linc (Microsoft Teams) i'r cyfarfod ar Google Classroom eich plentyn a fydd yn eich harwain i'r ystafell aros. Yna, bydd yr athro yn caniatau mynediad i chi fesul rhiant ar yr amser penodedig. Er mwyn hwyluso rhediad y cyfarfod, bydd rhaid glynu at yr amser penodedig er mwyn osgoi pobl yn aros am ormod o amser yn yr ystafell aros.

Mi fydd hefyd **Diwrnod Dathlu ar Ddydd Mercher 18.11.26.**

Mi fydd hwn yn gyfle i chi ymweld a dosbarth eich plentyn unrhwbryd rhwng 3:30 p.m. a 5 p.m.gyda'ch plentyn iddynt rhannu a dathlu eu gwaith.

Yn ystod Tymor y Gwanwyn cynhelir y cyfarfod nesaf **yn yr ysgol** ble cewch gyfle i drafod cynnydd yn ogystal â gweld gwaith eich plentyn.




## Gwasanaethau Dosbarth Tymor Yma

Bydd y gwasanaethau yn dechrau am 9.00 a.m ac yn para tua 20 - 30 munud. Croeso cynnes i rieni/ofalwyr.

| Dyddiad | Dosbarth |
| --- | --- |
| Dydd Gwener **9.10.26** | Blwyddyn 4 Mrs Thomas Crëyr Glas |
| Dydd Gwener **16.10.26** | Blwyddyn 4 Mr Wason Cudyll Coch |
| Dydd Gwener **23.10.26** | Blwyddyn 4 Mr Williams Carw |
| Hanner Tymor | |
| Dydd Gwener **13.11.26** | Blwyddyn 6 Mrs Long Cwcw |
| Dydd Gwener **20.11.26** | Blwyddyn 6 Miss Rees Dwrgi |
| Dydd Gwener **27.11.26** | Blwyddyn 6 Mrs Evans Llygoden y Cynhaeaf |

Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf

Parch Tegwch Cydweithio Cymreictod Hapusrwydd

Respect Fairness Co-operation Welsh Identity Happiness

## Cyngherddau Nadolig

**Dyma ddyddiadau cyngherddau Nadolig gyda dau berfformiad i bob Blwyddyn. Mi fydd tocynnau ar gael yn agosach at y dyddiad.**

| **Dyddiad** | **Blwyddyn** |
|---|---|
| Dydd Iau **3.12.26** | **Meithrin AM** - 9.30AM<br>**Meithrin PM** - 2:00PM |
| Dydd Mawrth **8.12.26** | **Blwyddyn 1 -** 9:30AM a 2:00PM |
| Dydd Mercher **9.12.26** | **Blwyddyn 2** 9:30AM a 2:00PM |
| Dydd Iau **10.12.26** | **Derbyn** - 9:30AM a 2:00PM |
| Dydd Mawrth **15.12.26** | **Blwyddyn 3** - 9:30AM a 2:00PM |
| Dydd Mercher **16.12.26** | Blwyddyn 4 - 9:30AM a 2:00PM |

Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf

Parch Tegwch Cydweithio Cymreictod Hapusrwydd

Respect Fairness Co-operation Welsh Identity Happiness

## Clybiau Allgyrsiol

Cliciwch ar y linc isod os hoffech gofrestru eich plentyn ar gyfer un o'r Clybiau ar ôl ysgol sy'n cael eu rhedeg gan staff. **Mi fydd clybiau yn cychwyn wythnos 14.9.26 heblaw Clybiau Nos Iau oherwydd y Nosweithiau Croeso**

**Dolen ar gyfer clybiau allgyrsiol Bl5 a 6**

**Dolen ar gyfer clybiau allgyrsiol Bl3 a 4**

**Dolen ar gyfer clybiau allgyrsiol Bl1 a 2**

| Diwrnod | Amser Cinio | Ar ôl Ysgol | Clybiau sy'n cael eu rhedeg gan gwmni allanol |
|---|---|---|---|
| Llun | **Clwb Codio Bl2**<br>**Bloc o bythefnos i bob dosbarth** | **Clwb Seiclo** (Niferoedd wedi trefnu)<br><br>**Clwb Seren a Sbarc** Bl.2<br><br>**Côr Blwyddyn 5 a 6 tan 4.20 p.m.**<br><br>**Clwb Dawns (Bl4)** | |
| Mawrth | **Radio'r Wern** | **Clwb Rygbi** (Bl 6)<br><br>**Clwb Lles a Gwinio** (Bl.5 a 6)<br><br>**Clwb Celf** (Bl3 tymor yma) tan 4.20p.m. | |
| Mercher | **Clwb Cerdded a Chlonc** | **Dim Clybiau** - Hyfforddiant Staff | **Clwb Aml Chwaraeon Urdd (Bl.4)**<br>**Urdd - Gweithgareddau**<br><br>**Clwb Dancefit (Derbyn - Bl.2)**<br>**OnlineBooking** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Criw Perfformio**<br>**4.30 - 5.30**<br>**(Bl1 -Bl2)**<br>**https://forms.gle/vb2ags1T5FhK99TP7** |
| Iau | **Clwb Codio** (Bl.4)<br>**Clwb Darllen** (Bl.3)<br>**Radio'r Wern**<br>**Clwb Cerdded a Chlonc** | **Dim clybiau oherwydd Noswaith Croeso - Clybiau yn dechrau Dydd Iau 24.9.26** | |
| Gwener | | | **Clwb Dancefit**<br>**(Bl3-Bl4)**<br>**http://www.ticketsource.com/the-fit-group-cic** |

Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf

Parch Tegwch Cydweithio Cymreictod Hapusrwydd

Respect Fairness Co-operation Welsh Identity Happiness

## Newyddion

### Llety Llyfrau

Rydym yn awyddus i roi cyfle i blant, staff a rhieni Ysgol y Wern rannu eu mwynhad o ddarllen. Felly, rydym yn falch iawn o gyhoeddi ein **'Llety Llyfrau'** a fydd yn dechrau ddydd Llun.

Bydd y Llety Llyfrau yn rhoi cyfle i blant ddod â llyfr i'r ysgol y maent wedi ei ddarllen a'i fwynhau. Gall y llyfrau fod o unrhyw genre, gan gynnwys nofelau, llyfrau ffeithiol neu hyd yn oed gomics! Y peth cyffrous yw y bydd eich plentyn wedyn yn gallu cyfnewid y llyfr hwnnw am un gwahanol i'w fwynhau.

Bydd y **Llety Llyfrau** ar gael i'r plant bob dydd ar yr iard (ac ar ôl ysgol ar iard y Dosbarth Derbyn).

Nid i'r plant yn unig y mae'r cyfle cyffrous hwn! Bydd '**Llety Llyfrau' i oedolion** hefyd ar gael ar iard y Dosbarth Derbyn bob dydd, gan roi cyfle i rieni, gofalwyr a staff gyfnewid llyfrau a darganfod darlleniadau newydd.

Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth wrth i ni gychwyn ar yr antur gyffrous newydd hon. Edrychwn ymlaen at weld ein cymuned ysgol yn dod ynghyd i rannu straeon, argymell hoff lyfrau a meithrin cariad at ddarllen.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

Yn gywir,



**Cyfeillion Darllen.**

Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf

| Parch | Tegwch | Cydweithio | Cymreictod | Hapusrwydd |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Respect | Fairness | Co-operation | Welsh Identity | Happiness |

menter caerdydd

# 'Darllen gyda'ch plentyn'

# 'Reading with your child

CARDIFF
CAERDYDD

**An English presentation for parents on how to develop your child's reading skills.**

**Cyflwyniad, yn Saesneg, i rieni ar sut i wrando ar a datblygu sgiliau darllen eich plentyn.**

**The session will focus on the first steps of reading, 'Tric a Chlic' phonics, developing comprehension skills; songs and activities to expand vocabulary.**





**Ysgol y Wern**

**Dydd Llun**

**Monday**

**30/11/26 5:00pm**



Rhif Elusen / Charity Number: 1098606
Rhif Cwmni / Company Number: 4576565

**Bws Beics**

Mi fydd y Bws Beics yn rhedeg pob Dydd Gwener. Mae croeso mawr i bawb. Ymunwch â’r gymuned beicio yma:



**Gweithgareddau CRHA**

@crha.ysgolywern.pta - Dilynwch gyfrif instagram y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am yr wybodaeth ddiweddaraf am eu digwyddiadau yn cynnwys y rhai isod



# Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf

| Parch | Tegwch | Cydweithio | Cymreictod | Hapusrwydd |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Respect | Fairness | Co-operation | Welsh Identity | Happiness |



# Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf

Parch – Respect | Tegwch – Fairness | Cydweithio – Co-operation | Cymreictod – Welsh Identity | Hapusrwydd – Happiness



Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf

| Parch | Tegwch | Cydweithio | Cymreictod | Hapusrwydd |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Respect | Fairness | Co-operation | Welsh Identity | Happiness |

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad eich plentyn yna cysylltwch.**


*Mr Aled ap Iwan*

Pennaeth

ysgolywern@cardiff.gov.uk